

Sacrocolpopecsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer trwsio llithriad crothol

22 Mawrth 2017

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae [sacrocolpopecsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll](#) ar gyfer trwsio [llithriad crothol](#) yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw. Dim ond os rhoddir esboniad manwl o'r risgiau a bod camau ychwanegol yn cael eu rhoi ar waith i gofnodi ac adolygu beth sy'n digwydd y dylid ei ddefnyddio.

Mae angen cynnal rhagor o ymchwil ar sacrocolpopecsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer trwsio llithriad crothol ac efallai y bydd NICE yn ailystyried y driniaeth os caiff rhagor o dystiolaeth ei chyhoeddi.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Yn benodol, dylai esbonio'r ansicrwydd ynghylch pa mor debygol ydyw o wella eich symptomau, gan gynnwys y risg y bydd llithriad crothol yn digwydd eto. Dylai hefyd sicrhau eich bod yn deall yr ansicrwydd ynghylch pa mor ddiogel yw'r driniaeth, gan gynnwys y risg y bydd y rhwyll yn erydu. Dyma lle mae'r rhwyll yn torri'n ddarnau bach a all niweidio'r fagina neu organau eraill gerllaw. Gall hyn achosi poen, gwaedu a haint. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dim ond ar ôl cael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi a hoffech gael y driniaeth hon. Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol ofyn i chi a ellir casglu manylion am eich triniaeth.

Sylwadau eraill gan NICE

Dywedodd NICE, gan fod risg y gall y rhwyll erydu, y caiff y driniaeth hon ei chynnal fel arfer mewn dau gam (hysterectomi ac yna sacrocolpoepsi yn ddiweddarach).

Eich tîm gofal iechyd

Dylai clinigwyr sydd â phrofiad o reoli llithriad organau'r pelfis ac anymataliaeth wrinol mewn merched benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig y driniaeth hon a nhw ddylai gynnal y driniaeth. Dylent gael yr hyfforddiant penodol diweddaraf ar gyfer y driniaeth.

Y cyflwr

Mae llithriad crothol yn digwydd pan fydd y groth (wterws) yn llithro i lawr o'i safle arferol i mewn i'r fagina, ac weithiau drwyddi. Gall effeithio ar ansawdd bywyd ac achosi problemau gyda swyddogaeth y coluddyn a'r bledren, a rhyw.

Os mai dim ond yn rhannol y mae'r fagina wedi llithro, gellir ei thrin gydag ymarferion gwaelod y pelfis a phesariâu, heb fod angen llawdriniaeth. Os bydd y llithriad yn ddifrifol, efallai y bydd angen llawdriniaeth. Mae gwahanol fathau o lawdriniaeth ac mae rhai ohonynt yn cynnwys defnyddio rhwyll i roi cymorth ychwanegol.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio sacrocolpoepsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll fel opsiwn triniaeth arall.

Gall [NHS Choices](#) a [gwybodaeth NICE i'r cyhoedd](#) am anymataliaeth wrinol mewn merched fod yn fan da i gael gwybod mwy.

Y driniaeth

Fel arfer, cynhelir sacrocolpoepsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer trwsio llithriad crothol o dan anesthetig cyffredinol. Gellir ei chynnal fel

llawdriniaeth abdomenol agored neu drwy ddefnyddio llawdriniaeth twll clo drwy doriadau bach yn yr abdomen.

Y nod yw cadw organau'r pelfis yn eu lle arferol, ar ôl tynnu'r groth (hysterectomi). Gwneir hyn drwy gysylltu darn o rwyll, o'r brig fel arfer, ac weithiau o flaen neu gefn y fagina, i ewyn yn y pelfis ar waelod yr asgwrn cefn, neu i asgwrn ar waelod yr asgwrn cefn. Mae'r rhwyll yn debyg i rwyd denau, ac fe'i gwneir fel arfer o bolypropylen.

Gellir cynnal y driniaeth yr un pryd â llawdriniaeth ar gyfer cyflyrau eraill, er enghraifft, ar gyfer anymataliaeth sy'n gysylltiedig â straen. Mae gwahanol fathau o rwyllau neu impiadau meinwe wedi cael eu defnyddio, a gall fod risgiau gwahanol yn gysylltiedig â nhw.

Manteision a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynodd nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi defnyddio sacrocolpopectsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer trwsio llithriad crothol mewn merched. Roedd y 10 astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 2,277 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd y manteision canlynol:

- roedd y driniaeth yn llwyddiannus yn achos o leiaf 90% o ferched
- roedd 93% o ferched yn fodlon ar y canlyniadau tua dwy flynedd yn ddiweddarach
- gwelliant mewn symptomau'n ymwneud â chyhyrau llawr y pelfis.

Dangosodd yr astudiaethau fod y rhan fwyaf o'r risgiau sy'n gysylltiedig â sacrocolpopectsi gyda hysterectomi gan ddefnyddio rhwyll ar gyfer trwsio llithriad crothol yn debyg neu'n llai na'r rhai a adroddwyd ar gyfer triniaethau eraill. Ymhlith y risgiau eraill roedd y canlynol:

- y rhwyll yn erydu mewn tua 10% o'r merched a gafodd driniaeth; roedd angen i o leiaf hanner y merched hyn gael llawdriniaeth bellach er mwyn unioni'r erydu neu dynnu'r rhwyll

- roedd llai o risg bod y rhwyll yn erydu mewn merched a oedd wedi cael hysterectomi eisoes o gymharu â merched a gafodd hysterectomi yr un pryd
- y rhwyll yn erydu mewn hyd at 14% o ferched y tynnwyd eu croth a'u serfics o gymharu â 0% o'r rheini na thynnwyd eu serfics
- haint clwyf mewn 8% o ferched
- cleisio o amgylch y bledren mewn 10% o ferched
- torgest lle gwnaed y toriad ar gyfer y llawdriniaeth mewn 2% o ferched
- problemau yn gwagio'r bledren a'r coluddyn mewn 2% o ferched.

Dywedwyd wrth NICE hefyd am risg arall bosibl: haint yn yr asgwrn.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y [canllaw](#). Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Pa mor hawdd yw tynnu'r rhwyll os aiff pethau o le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae [canllawiau ymyriadau](#) NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-2396-0